**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

Dywedodd y Gweinidog Addysg, pan gyhoeddodd "cynlluniau ar gyfer mynd yn ôl i'r ysgol" ar gyfer mis Medi ar 9 Gorffennaf, 'bydd cyfnod o hyblygrwydd i gydnabod y bydd ysgolion eisiau canolbwyntio ar rai grwpiau blwyddyn â blaenoriaeth, fel y rhai sydd newydd ddechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarthiadau derbyn. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu'.

Mae diwrnodau cynllunio a pharatoi, heb i ddysgwyr fod yn bresennol yn yr ysgol, yn rhan o'r trefniadau hyblyg hyn.

Mae grŵp Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) yn cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd gydag uwch-swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg. O'r trafodaethau gyda'r grŵp hwn y cododd yr angen am ddiwrnodau cynllunio a pharatoi ychwanegol ar ddechrau tymor newydd yr hydref. Roedd awdurdodau lleol yn pryderu na fyddai gan rai ysgolion ddigon o amser i baratoi i groesawu pob dysgwr yn ôl o 1 Medi.

Roedd yn angenrheidiol diwygio'r Rheoliadau oherwydd y diwrnodau cynllunio a pharatoi ychwanegol hyn, sy'n ychwanegol at y diwrnodau HMS sydd wedi eu dyrannu, neu fel arall byddai llawer o ysgolion yn torri deddfwriaeth statudol i ddarparu isafswm nifer o sesiynau dros y flwyddyn ysgol.

Nododd tri awdurdod lleol, mewn ymateb i lythyrau oddi wrth Lywodraeth Cymru, na fyddai dau ddiwrnod cynllunio a pharatoi yn ddigon ar gyfer eu hysgolion hwy. Dyroddwyd llythyr ychwanegol i'r awdurdodau hynny, gan eu hatgoffa o'u dyletswyddau statudol a phwyso arnynt i ailystyried eu cynlluniau er mwyn sicrhau y collid cyn lleied o amser pellach yn yr ysgol â phosibl. Ni chodwyd unrhyw bryderon pellach gan awdurdodau lleol ynghylch y trefniadau.

Gan fod y newidiadau yn gymwys i'r flwyddyn ysgol newydd ac nad yw'n arferol ymgynghori ag ysgolion dros wyliau'r haf, nid oedd digon o amser i ymgymryd ag ymgynghoriad llawn. Nid oedd peidio â gwneud y Rheoliadau 2020 diwygiedig yn opsiwn hyfyw gan inni gydnabod bod angen amser ychwanegol ar rai ysgolion er mwyn paratoi'n briodol i blant a phobl ifanc ddychwelyd i addysg lawnamser yn ddiogel. Diwygiad untro i'r Rheoliadau yw hwn mewn ymateb i effaith pandemig y coronafeirws.

Yn fwy cyffredinol, yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn fframwaith penderfynu'r Gweinidog Addysg, mae swyddogion ar draws y Gyfarwyddiaeth yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid i helpu i lunio a llywio polisïau a chynigion sy'n ymwneud â chynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys CCAC, yr haen ganol a'r grŵp penaethiaid, yr undebau llafur, yn ogystal â'r Prif Gynghorydd Gwyddonol, y Prif Swyddog Meddygol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gell Cyngor Technegol.

Ni chodwyd unrhyw faterion gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwyliau estynedig hanner tymor yr hydref yn yr ardaloedd awdurdod lleol hynny lle yr agorodd ysgolion am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf.

Cytunwyd ar y gwyliau hanner tymor estynedig â Gweinidogion Cymru ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny ar 8 Gorffennaf. Roedd hyn yn dilyn y weithdrefn statudol a bennir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014, sef bod rhaid i awdurdodau lleol gael cytundeb gan bob corff llywodraethu i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardal a Gweinidogion Cymru i newid y dyddiadau tymhorau yr hysbyswyd amdanynt.

Dyroddodd y Gweinidog Addysg lythyrau cadarnhau i'r awdurdodau hynny ar unwaith, gan ofyn iddynt ddiweddaru eu dyddiadau tymhorau sydd wedi eu cyhoeddi ac i sicrhau bod rhieni a theuluoedd y dysgwyr yr effeithir arnynt yn ymwybodol o'r newid.

Mae hysbysu'n gynnar am y newid i ddyddiadau tymhorau ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol hyn wedi rhoi'r amser i rieni i gynllunio ar gyfer unrhyw anghenion gofal plant ychwanegol ar gyfer y gwyliau hanner tymor estynedig.

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru sicrhau gofal plant digonol i helpu rhieni i weithio neu hyfforddi. Ar gyfer yr awdurdodau hyn, pan fydd yr hanner tymor yn rhedeg am ddwy wythnos yn hytrach na'r un wythnos arferol, bydd angen trafod â darparwyr gofal plant am gynlluniau gofal plant ar gyfer y gwyliau estynedig.

Adroddodd yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer 2018-19 mai, o'r 48% o rieni sy'n defnyddio gofal plant, 76% ohonynt sydd wedi defnyddio gofal plant anffurfiol a ddarparwyd gan deulu a ffrindiau. Mae aelwydydd rhiant sengl a'r rheini a chanddynt incwm is yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol. Mae'r defnydd a'r ddibyniaeth hyn wedi eu cydnabod yn null Llywodraeth Cymru o gefnogi ffurfio aelwydydd estynedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gydymffurfio â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 drwy gynnal asesiadau effaith a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol, wrth ddarparu'r nifer gofynnol o sesiynau ysgol ac wrth ddarparu gofal plant digonol. Cyhoeddir asesiadau effaith maes o law.